**CYFRINACHOL**

**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD:** | 15fed o Orffennaf, 2020 |
| **TEITL:** | **OPSIYNAU PLAS TAN Y BWLCH** |
| **AWDUR:** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS:** | Ymgynghori'n ffurfiol ar opsiynau ar gyfer y dyfodol ar gyfer Plas Tan y Bwlch |

**1 CEFNDIR**

1.1 Fel y mae'r Aelodau'n ymwybodol mae effaith Cofid-19 ar fusnes yr Awdurdod, yn enwedig yr elfen cynhyrchu incwm o fusnes yr Awdurdod wedi bod yn ddwys.

1.2 Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cynnwys tri aelod o'r Awdurdod a thri Swyddog. Mae ganddo'r cylch gwaith o ddarparu cefnogaeth a chymorth i swyddogion ac adrodd o bryd i'w gilydd i'r pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y meysydd canlynol:

1.2.1 Gweithredu'r Strategaeth Gyllideb fel sy'n berthnasol i Blas Tan y Bwlch.
1.2.2 Symud drosodd i fodel busnes cynaliadwy.
1.2.3 Ystyried heriau'r dyfodol a darparu cyfeiriad strategol ar gyfer Plas Tan y Bwlch.
1.2.4 Ystyried penodi arbenigwyr yn ôl yr angen i ymdrin â materion neu broblemau allweddol.
1.2.5 Gosod / sefydlu'r taliadau am gyrsiau a gweithgareddau ym Mhlas Tan y Bwlch.
1.2.6 Rhoi mewnbwn i'r rhaglen o gyrsiau a’r rhaglen waith flynyddol ar gyfer Plas Tan y Bwlch a'i chymeradwyo.
1.2.7 Awdurdodi ceisiadau am grantiau a chymorth ariannol ar gyfer Plas Tan y Bwlch lle nad yw cyfanswm gwerth gros y prosiect yn fwy na £50,000.

1.3 Yn ei dro mae gan y pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r cylch gwaith o ystyried adroddiadau cyfnodol gan Fwrdd Plas Tan y Bwlch ac i weithredu ar ran yr Awdurdod wrth sefydlu polisïau codi tâl a'r cyfraddau y codir tâl amdanynt am Wasanaethau'r Awdurdod.

1.4 Mater i'r Awdurdod felly yw ystyried a phenderfynu ar unrhyw newidiadau tymor hir posibl ar gyfer y busnes a ymgymerir ag o ym Mhlas Tan y Bwlch gyda mewnbwn addas gan Fwrdd Plas Tan y Bwlch.

1.5 Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn mae dau adroddiad a ystyriwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Plas Tan y Bwlch. Mae'r adroddiad cyntaf ar gael o dan Atodiad 1 o'r enw “Busnes y Dyfodol,” hwn yw'r adroddiad gan y Pennaeth Busnes sy'n manylu ar yr effaith real iawn y mae Cofid-19 wedi'i chael ar y ganolfan a'r cwmpas cyfyngedig ar gyfer adferiad, yn sicr yn y tymor byr ac, i mewn i'r tymor canolig hefyd mae'n debyg. Yr ail adroddiad yn Atodiad 2 yw'r adroddiad o'r enw “Adroddiad ar Amcangyfrif Cost Opsiynau sy'n Ymwneud â Phlas Tan Y Bwlch” sy'n ceisio darparu costau tebygol ar gyfer y Bwrdd wrth barhau i redeg Plas Tan y Bwlch ar ei fodel busnes cyfredol yn ogystal â chostau ar gyfer cau'r ganolfan o bosibl.

1.6 Er bod y papurau ynghlwm yn eu cyfanrwydd credaf y byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at ffeithiau allweddol ar y costau tebygol i'r Awdurdod:

1.6.1 Costiodd Plas Tan y Bwlch £246,055 i'r Awdurdod redeg am y flwyddyn ariannol olaf yn 2019/20. Gellir priodoli rhywfaint o'r ffigur hwn i bandemig Cofid-19 ond y gwir amdani yw bod y ganolfan yn sylweddol fyr o gyrraedd ei tharged incwm cyn y pandemig. Adroddwyd am hyn i'r Awdurdod o'r blaen ac roedd yn ystyriaeth allweddol wrth i'r Awdurdod benderfynu bwrw ymlaen â phrosiect a ariennir gan grant a fyddai wedi goruchwylio uwchraddiad sylweddol i'r llety yn gyffredinol. Roedd hefyd yn cynnwys trosi'r atodiad yn y cefn yn ddatblygiad o fath byncws.

1.6.2 Mae'r Ganolfan wedi methu â chyrraedd ei tharged incwm ym mhump o'r chwe blynedd diwethaf ac mae'r gwir gost i'r Awdurdod o weithredu Plas yn ystod y cyfnod hwn wedi amrywio o £147,409 i £377,450 y flwyddyn.

1.6.3 Os na fydd unrhyw newid i'r model busnes presennol, mae'r gost debygol i'r Awdurdod yn debygol o gynyddu'n sylweddol. Dros y ddwy flynedd ariannol nesaf o 01.04.2020 - 31.03.2022 bydd cost amcanol rhedeg Plas ar ei fodel busnes cyfredol yn £499,082 ar sail yr amgylchiadau gorau tra byddai asesiad mwy darbodus yn dod at ffigur o £760,045.

1.6.4 Amcangyfrifir y byddai costau cronnus diswyddo a rhyddhau pensiwn yn £385,181.

## 2 YSTYRIAETHAU BWRDD Y PLAS

2.1 Cyn dod at unrhyw gonsensws, gofynnodd y Bwrdd am eglurhad ar ddwy agwedd allweddol sef a oedd yr Awdurdod yn debygol o adennill unrhyw un o'i golledion incwm gan Lywodraeth Cymru ac yn ail pe bai'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r datblygiad a nodwyd yn 1.6.1 uchod a oedd yna unrhyw risg y byddai Llywodraeth Cymru yn ei hawlio yn ôl yn y dyfodol.

2.2 Ar adeg cyfarfod y Bwrdd ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ni ellid rhoi unrhyw sicrwydd ar y naill na'r llall o'r agweddau hyn ond os yw'r sefyllfa wedi newid erbyn cyfarfod yr Awdurdod yna rhoddir diweddariad llafar ar hynny. Os yw'r newyddion yn gadarnhaol yn hyn o beth yna efallai y byddwn mewn sefyllfa lle bydd y bwlch cyllido ar gyfer Plas Tan y Bwlch ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi'i leihau'n sylweddol. Fodd bynnag, os felly, nid yw hyn yn dileu'r diffyg cyllido gwirioneddol sy'n wynebu’r Plas yn y dyfodol.

2.3 Trafododd Bwrdd Plas nifer o opsiynau posibl yn amrywio o barhau â'r model busnes cyfredol, gweithredu ar lefel is, cau'r safle dros dro tra pery'r pandemig ac yna ystyried opsiynau posibl o ran cau'n gyfan gwbl.

2.4 Fel rhan o'r drafodaeth hon, hysbyswyd y Bwrdd ynghylch ffrydiau incwm, - o'r incwm rhent a dderbynnir o'r mast telathrebu ar y tir a'r cynllun trydan dŵr sy'n dod i gyfanswm o oddeutu £3,500 a £28,000 yn flynyddol. Hefyd, mae yna gaban ym mherchnogaeth yr Awdurdod a allai ffurfio uned hunanarlwyo sy'n hawdd ei gosod ar gyfer cynhyrchu incwm pellach yn annibynnol o'r prif dŷ ei hun.

2.5 Roedd rhywfaint o botensial cynhyrchu incwm hyd yn oed yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys y potensial tebygol o gynhyrchu incwm Gwely a Brecwast sylweddol pe byddem yn gallu marchnata'r adeilad fel un sydd wedi cymryd camau i leihau lledaeniad Cofid-19 a thrwy hynny fanteisio ar y mewnlifiad tebygol o bobl sy'n dewis cymryd “gwyliau nes at adref” yn ystod yr amser hwn. Mae yna archebion eraill hefyd wedi’u hamlygu yn adroddiad y ‘Pennaeth Busnes’ sy’n debygol o fynd ymlaen fel digwyddiad Red Bull.

2.6 Roedd consensws cyffredinol ymhlith aelodau'r Bwrdd bod y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy a'i fod yn rhoi'r Awdurdod yn agored i risg ariannol annerbyniol a risg annerbyniol i'w enw da. Roedd hyn yn arbennig o wir gan mai dwy brif ffrwd incwm y ganolfan yw plant sy'n mynychu trwy gyfrwng eu hysgolion a'u cyrsiau sy'n denu cyfran uchel o'r rhai sydd â risg uwch (oherwydd eu hoedran) os ydyn nhw'n dal Cofid-19. Teimlwyd gyda'r ddau grŵp oedran hyn na fyddai busnes craidd cyfredol Plas yn dychwelyd mewn niferoedd yn y dyfodol agos a bod y rhagdybiaeth a wnaed gan y Pennaeth Busnes y byddai Plas unwaith eto'n gweithredu yn ôl ar gapasiti a busnes 100% erbyn 2022 / 23 yn optimistaidd.

2.7 Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol y gallai gweithredu gyda brys gormodol hefyd roi'r Awdurdod yn agored i risg e.e. pe bai'r Awdurdod yn cau Plas ar unwaith ac yn cael gwared ar yr adeilad, mae risg wirioneddol na fyddem yn gallu cael y pris gorau posibl o dan amgylchiadau presennol y farchnad. Yn yr un modd, byddai bordio'r adeilad yn golygu bod yr Awdurdod mewn perygl o fandaliaeth a thynnu deunyddiau gwerthfawr oddi ar yr adeilad fel y plwm ar y to. Rhaid cofio bod Plas Tan y Bwlch yn adeilad rhestredig

Gradd II* ac mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gofal i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal.

2.8 O ran y cwestiwn a ddylid bwrw ymlaen ag unrhyw welliannau arfaethedig i'r Plas ai peidio, roedd y Bwrdd yn ymwybodol y gallai staff edrych yn negyddol ar welliannau ar yr union adeg pan fo'i ddyfodol yn cael ei drafod. Fodd bynnag, teimlwyd y gallai peidio â gwneud hynny roi'r Awdurdod a'r staff o dan anfantais pe bai sefydliad arall yn dangos diddordeb yn y dyfodol agos naill ai i fod yn bartner gyda'r Awdurdod wrth redeg y Plas neu fel arall o ran prydlesu neu brynu'r adeilad. Wedi pwyso a mesur, teimlwyd hefyd y byddai'r gwaith diweddar o ailwampio y tu mewn i'r adeilad yn ychwanegu at werth cyfalaf yr adeilad.

2.9 Bu cryn ddadlau / drafod ynghylch yr hyn y gallai gweithredu ar sail lai ei olygu mewn gwirionedd a hefyd yr hyn a olygwyd mewn gwirionedd wrth gau'r ganolfan dros dro neu ei chau yn rhannol dros dro. Cytunodd y Bwrdd fod angen amser pellach i drafod a dod i gytundeb yn hynny o beth gan nad oedd y wybodaeth mewn perthynas â hynny wrth law yn y cyfarfod.

2.10 Fodd bynnag, mae unrhyw newidiadau yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol i'r strwythur staffio yn y Plas a chytunwyd y dylai'r Awdurdod yn awr fwrw ymlaen gydag ymgynghoriad staff ffurfiol a fyddai hefyd yn cynnwys yr Undebau ar ddyfodol posibl Plas.

## 3 ARGYMHELLION BWRDD Y PLAS

3.1 Yn wyneb nifer y staff a allai gael eu heffeithio, bod yr Awdurdod yn mynd ati i ddechrau ar y broses o ymgynghori'n ffurfiol â staff a'r Undebau Llafur ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.

3.2 Bod Bwrdd Plas sy'n gweithio ar y cyd â Chadeiryddion yr Awdurdod ac Is-gadeirydd yr Awdurdod yn ystyried modelau busnes amgen (gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill) i ystyried faint o swyddi y gellir eu hachub. Bod yr Awdurdod yn ystyried y mater ymhellach yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi oni bai bod cyfarfod Awdurdod arbennig yn cael ei alw cyn y dyddiad hwnnw i drafod y mater.

3.3 Yn y cyfamser bod y gwelliannau arfaethedig a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Awdurdod yn mynd rhagddynt er mwyn gosod y ganolfan yn y sefyllfa orau bosibl i barhau â rhyw fath o fodel busnes amgen neu weithio mewn partneriaeth ag eraill.

## GOBLYGIADAU ADNODDAU

Nid oes gan yr adroddiad hwn ynddo'i hun oblygiadau sylweddol o ran adnoddau ond y broses ymgynghori yw'r cam cyntaf yn yr hyn a allai fod yn fater o gau Plas Tan y Bwlch. Fel yr amlygwyd ynghynt yn fy adroddiad, amcangyfrifir y byddai costau cronnol diswyddo a rhyddhau pensiwn yn £385,181.

Amlygir goblygiadau sylweddol hefyd o ran adnoddau yn fy adroddiad mewn cysylltiad â pharhau i redeg y ganolfan.

## ARGYMHELLION

**Derbyn argymhellion Bwrdd Plas a bwrw ymlaen fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 3.1 - 3.3 o'r adroddiad hwn.**

## PAPURAU CEFNDIROL

**Mae'r papurau a roddwyd gerbron cyfarfod Bwrdd Plas Tan y Bwlch ar y 1af o Orffennaf 2020 yn atodol i'r adroddiad hwn fel Atodiad 1 a 2.**

# ATODIAD 1

**EITEM RHIF 4**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Bwrdd Rheoli Plas Tan a Bwlch |
| **DYDDIAD** | 1af Gorffennaf 2020 |
| **TEITL** | **BUSNES YN Y DYFODOL** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Busnes |
| **PWRPAS** | I ddarparu manylion am botensial busnes ac opsiynau ar gyfer y dyfodol. |

## 1. Cefndir

1.1 Oherwydd y pandemig coronafirws mae'r Ganolfan wedi bod ar gau yn gyfan gwbl i fusnes ers 17 Mawrth, 2020 pan adawodd y grŵp preswyl diwethaf.

1.2 Rhoddwyd y rhan fwyaf o'r staff ar y cynllun seibiant o'r dyddiad hwnnw, gyda rhai aelodau o'r tîm gweinyddol yn gweithio am ychydig wythnosau i allu canslo cyrsiau a rhoi gwybod i gwsmeriaid. O ddechrau mis Mai mae un aelod o'r tîm gweinyddol wedi parhau er mwyn ymdrin ag ymholiadau a pharhau i gysylltu â chwsmeriaid wrth i'r cyfnod cau gael ei ymestyn. Mae un aelod arall o staff wedi parhau i weithio i ofalu am ddiogelwch yr adeilad ac i ymdrin ag unrhyw eitem arall sydd angen sylw ynghyd â rhywfaint o arddio sylfaenol.

1.3 Nid yw'n eglur pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn llacio'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â lletai preswyl er mwyn caniatáu inni ailagor, a hefyd pa fesurau fydd yn rhaid bod yn eu lle o ran pellhau cymdeithasol.

1.4 Mae Croeso Cymru yn awgrymu 26 Medi 2020 fel dyddiad ar gyfer agor ar gyfer archebion.

1.5 Bydd yn rhaid gwneud addasiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio i sicrhau y gall staff weithio'n ddiogel a bod cwsmeriaid yn gallu cynnal pellter cymdeithasol.

1.6 Nid yw'r ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw gyllid y gall yr Awdurdod ei hawlio o dan y Cynllun Cadw Swyddi Coronafirws ar gyfer staff ar seibiant ac unrhyw arbedion a wneir wrth fod ar gau.

## 2. Potensial busnes

2.1 Wrth edrych ar y potensial busnes bu'n rhaid i mi dybio y bydd mesurau pellhau cymdeithasol yn eu lle tan ddiwedd y flwyddyn ariannol hon o leiaf. Tybir na fydd y mesurau hyn yn cael eu llacio hyd nes y deuir o hyd i frechlyn ar gyfer y firws.

2.2 Gan fod gan bob maes gwaith a wneir sylfaen gwahanol o gwsmeriaid ac felly ystyriaethau gwahanol byddaf yn mynd i'r afael â phob un ar wahân.

| | | |
|---|---|---|
| Yr Ystafell De a'r Bar | Ystafell De | Gellir agor yr Ystafell De cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi oherwydd mae'n cael ei staffio gan un person. Byddai'n rhaid gosod sgrin Persbecs yn y man gwasanaethu ac aildrefnu dodrefn er mwyn galluogi pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, gan fod y rhan fwyaf o'r diwrnodau proffidiol yn ystod gwyliau'r banc ac ar benwythnosau, mae'n annhebygol y bydd nifer y cwsmeriaid yn dychwelyd i wneud agor yr Ystafell De yn broffidiol yn 2020. Rhagwelir y gwelir y lefelau arferol yn dychwelyd yn yr haf 2021 a fyddai'n golygu y byddai'r Ystafell De yn dychwelyd i fod yn hyfyw. |
| | Bar | Gellid sefydlu bar dros dro ar y prif goridor (fel rydyn ni'n ei wneud ar gyfer digwyddiadau arbennig) felly gallai derbynnydd y nos ei staffio - oni bai bod grŵp mawr yn y tŷ a'r adeg hynny fe fyddai angen staff ychwanegol. |
| | | |
| Siale | Fe'i hysbysebir trwy Airbnb ar hyn o bryd. | Gellid ailagor ar gyfer archebion cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau'n cael eu codi. Byddai angen gwneud gwaith glanhau a diheintio ychwanegol |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhwng cwsmeriaid yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru. |
| | | |
| Cyfarfodydd Dydd | | Gyda llawer o sefydliadau'n cynnal cyfarfodydd rhithwir yn llwyddiannus credir y bydd llai o geisiadau am gyfarfodydd.<br>Bydd rhai cyfarfodydd yn amlwg yn cael eu cynnal ond bydd yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn gallu gweithredu pellter cymdeithasol efallai trwy gyfyngu ar nifer y mynychwyr. |
| | | |
| NCS / Y Cyngor Astudiaethau Maes (FSC) | Canlwyd holl gyrsiau 2020. | Mae'r FSC, y prif bartneriaid yn y maes hwn, ar gau ar hyn o bryd. Mae'n debygol y byddai'r grwpiau NCS yn dychwelyd yn 2021 er nad oes sicrwydd o hyn. |
| | | |
| Archebion Grŵp | Red Bull | Mae ganddyn nhw ddiddordeb o hyd mewn defnyddio'r cyfleusterau yn y Plas. Gallai hyn olygu eu bod nhw'n llogi'r adeilad â’i bod nhw’n dod â'u harlwywyr eu hunain i ddarparu'r holl wasanaethau a phrydau bwyd i'w gwesteion. |
| | Gŵyl Ukulele | Maent wedi aildrefnu eu digwyddiad rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2020 gan ddefnyddio'r tŷ cyfan a'r holl lety. Mae'r trefnydd wedi nodi bod y digwyddiad yn debygol o fynd yn ei flaen fel y cynlluniwyd gyda phellter cymdeithasol yn ei le. |
| | Grwpiau eraill | Grwpiau cerdded a Chymdeithasau Celf. Nid yw'n hysbys sut y bydd y gweithgareddau hyn yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | adfer / codi ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi. Mae llawer o'r cwsmeriaid yn yr ystod oedran hŷn. Os oes yna grwpiau yn y cyfnod ar ôl i ni ailagor cyn i'r rheoliadau pellter cymdeithasol gael eu llacio yna bydd raid i ni sicrhau nad yw'r niferoedd sy'n mynychu yn ei gwneud hi'n anodd gweithredu'r rheolau hyn. Mae hyn yn cynnwys ar gyfer yr ochr breswyl a defnyddio'r bws mini. |
| | | |
| Priodasau a Digwyddiadau Arbennig | | Mae pob un a gynlluniwyd ar gyfer eleni wedi canslo gan nodi y byddent yn hoffi ail archebu ar gyfer y flwyddyn nesaf. |
| | | |
| Cyrsiau ar y Cyd | SyM (WI) a Chymdeithas Cerddoriaeth Siambr ac ati | Yn yr un modd â Grwpiau Eraill, mae'r cleientiaid yn y categori hwn yn gyffredinol yn yr ystod oedran hŷn. Bu'n rhaid i mi dybio y bydd y digwyddiadau hyn yn mynd yn eu blaenau gyda nifer is o bosibl am gwpl o flynyddoedd. |
| | | |
| Gwely a Brecwast | Argaeledd cyfyngedig sy'n cael ei farchnata trwy Airbnb ar hyn o bryd. | Byddai'n rhaid i ni gynyddu'r marchnata a sicrhau bod y llety ar gael trwy wahanol asiantau archebu ar-lein. I wneud hyn byddai'n rhaid i ni uwchraddio ein systemau swyddfa gefn (prosiect ar y gweill hefo'r adran TG), mae'n bosibl rheoli argaeledd â llaw, fodd bynnag, mae hyn yn cymryd llawer o amser, ac mae'n agored i wall dynol gan arwain at archebion dwbl. Mae defnyddio system â llaw |

| | | |
|---|---|---|
| | | hefyd yn cyfyngu ar nifer y llwyfannau ar-lein y gellir eu defnyddio. |
| | | |
| Grwpiau Almaeneg | | Mae'r mesur ar gyfer pellhau cymdeithasol a'r cyfyngiadau cwarantîn cyfredol (ynysu 14 diwrnod) yn golygu na fyddai'n bosibl rhedeg y cyrsiau hyn.<br>Mae'r gweithredwr Almaeneg sy'n bartner i ni yn awyddus i ailsefydlu'r archebion cyn gynted â phosibl, ond ni wyddys sut yr effeithir ar yr archebion. Os bydd tymor 2020 yn cael ei ganslo nid yw'n eglur a fydd y gweithredwr yn parhau i fod mewn busnes felly bu'n rhaid i mi ragdybio dim busnes yn 2021. |
| | | |
| Hyfforddiant | | 'Does dim wedi'i gynllunio ar gyfer 2020 ar hyn o bryd. |
| | | |
| Cyrsiau Cyhoeddus | | Mae'r rhain fel arfer yn cael eu bwcio gan unigolion neu gyplau. Mae yna nifer o faterion a fydd yn effeithio ar y nifer sy'n dod ar gyrsiau a hyfywedd cyrsiau o'r fath.<br>1) Bydd yn anodd rhedeg rhai ohonynt a chynnal pellter cymdeithasol.<br>2) Bydd yn rhaid cyfyngu cyrsiau sy'n defnyddio ein bysiau mini i 6 person er mwyn gallu cynnig pellter cymdeithasol.<br>3) Gellir darparu prydau bwyd o hyd, fodd bynnag, byddai angen ail-drefnu'r ystafell fwyta i ganiatáu pellter cymdeithasol ac yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | UKHospitality ni fyddem yn gallu cynnig gwasanaeth gweini. Efallai y bydd angen defnyddio ystafell Oakeley hefyd i ganiatáu lle ar gyfer niferoedd digonol. Byddai'n rhaid i ni aildrefnu cymaint â phosibl o'r cyrsiau yn ystod misoedd yr Hydref a'r Gaeaf, ar yr amod bod y tiwtor ar gael a'i fod yn amser addas o'r flwyddyn. Byddai'n rhaid gwirio hyfywedd cyrsiau cyn cadarnhau dyddiadau newydd. |
| | | |
| Ysgol - Blas ar y Plas | | Mae llawer o'r cyrsiau hyn, a gynigir i ysgolion cynradd lleol, yn cael eu cynnal rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Mae'n dal yn aneglur pa fesurau fydd ar waith bryd hynny a hefyd awydd rhieni'r disgyblion i fentro hyn. Er mwyn cymryd hyn i ystyriaeth, bu'n rhaid i mi dybio gostyngiad o 75% yn y presenoldeb.<br>Yn dibynnu ar lefel yr heintiau ac os oes ail don yn digwydd fel y rhagwelir ar hyn o bryd yn ystod y gaeaf efallai y bydd llai o ysgolion yn mynychu. I'r gwrthwyneb, gall y sefyllfa gael ei gwella'n fawr a gall y niferoedd fod ar eu lefel arferol. |
| | | |
| Ysgol – Cynradd | | Yn yr un modd â chyrsiau Blas ar y Plas, nid yw'n eglur pa gyfyngiadau a all fod ar waith. Rwyf wedi tybio gostyngiad o 75% yn y presenoldeb. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| Ysgol – Uwchradd | | Mae'r holl grwpiau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2020/21 wedi'u canslo. Rhagwelir y bydd y rhain yn dychwelyd i lefelau arferol yn 2021/20. |
| | | |
| Prifysgol | | Mae Prifysgol Llundain eisoes wedi canslo eu hymweliad arfaethedig ar gyfer mis Hydref 2020 oherwydd bydd eu haddysgu i gyd ar-lein. Nid ydynt yn rhagweld dyfodol cadarnhaol. |
| | | |

2.3 Gyda'r holl ystyriaethau uchod, rhagwelir y bydd incwm yn cael ei effeithio'n ddramatig yn y tymor byr gyda chymaint â 75% o ostyngiad mewn incwm efallai. Mae hyn yn cyfrif am oddeutu £575,000 ym mlwyddyn ariannol 2020/21 gan gynnwys y diffyg a ragwelwyd eisoes. Mae hyn hefyd yn tybio ein bod yn gallu aildrefnu rhai o'r cyrsiau rydyn ni wedi gorfod eu canslo yn ystod misoedd yr hydref / gaeaf. Os na fydd unrhyw ysgolion yn mynychu cyn y Pasg 2021 bydd gostyngiad ychwanegol o £36,000 mewn incwm.

2.4 Wrth edrych ymlaen at flwyddyn ariannol 2021/2022 y gobaith yw y bydd cynnydd cyson yn y niferoedd sy'n mynychu ein cyrsiau a'n digwyddiadau wrth i hyder ddychwelyd a mesurau pellhau cymdeithasol gael eu llacio ymhellach neu eu dileu'n llwyr. Rhagwelir y gallai fod gostyngiad o bron i 50% yn ein hincwm o rai cyrsiau yn dal i fod. Mae hyn yn oddeutu £240,000.

2.5 Y ffigurau a ddyfynnir yw'r diffyg a ragwelir o ran incwm ac nid ydynt yn ystyried unrhyw arbedion a gyflawnwyd tra ar gau, y grant cynllun seibiant y bydd yr Awdurdod yn gallu ei hawlio ac eitemau eraill fel ad-daliadau Trethi Busnes.

2.6 Mae manylion pellach am oblygiadau ariannol y cau a chostau ychwanegol posibl i'r Awdurdod yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ar wahân.

**3. Yr Ailddatblygu Arfaethedig**

3.1 Mae'r prosiect ailddatblygu arfaethedig a gynlluniwyd wedi'i ohirio am y tro. Derbyniwyd tendrau ar gyfer y gwaith ond maent yn dal heb gael eu hagor.

3.2 Mae 4 prif elfen i'r prosiect.

3.2.1 **Ystafelloedd gwely'r prif dŷ** – mae angen y gwaith hwn gan fod yr ystafelloedd gwely yn y prif dŷ mewn cyflwr gwael. Os ydym yn mynd i geisio marchnata'r llety i'r farchnad Gwely a Brecwast bydd angen i ni barhau â hyn, ynghyd ag uwchraddio'r system archebu swyddfa gefn i sicrhau bod y llety ar gael i asiantau teithio ar-lein..

3.2.2 **Adleolir bar a derbynfa newydd** – dylai hyn fynd yn ei flaen oherwydd fe fydd yn gwella'r cyfleusterau.

3.2.3 **Llety hostel** – hyd nes y codir y cyfyngiadau pellter cymdeithasol, mae'n annhebygol y bydd llawer o alw am y math hwn o lety. Ar ôl codir cyfyngiadau, a fydd cwsmeriaid yn dal i fod yn wyliadwrus o lety math hostel? Efallai y bydd angen ail-edrych ar y cynlluniau ac efallai eu newid i ystafelloedd mwy generig tebyg i Wely a Brecwast.

3.2.4 **Ystafell wely foethus** – y rhan hon o'r ailddatblygiad sydd â'r cyfiawnhad lleiaf ac roedd yn dal i gael ei ystyried o ran y rhesymeg i barhau ag o.

## 4. Senarios y Dyfodol

4.1 Mae Visit Britain a Croeso Cymru yn rhagweld ymchwydd yn y galw am 'Wyliau Aros' ar ôl i'r cyfyngiadau cloi gael eu codi. Os ydym wedi cwblhau'r gwaith o uwchraddio'r llety ac adleolir bar ac wedi sefydlu'r system archebu swyddfa gefn newydd byddem mewn sefyllfa ddelfrydol i fanteisio ar hyn.

4.2 Gan dybio y bydd y gofynion pellter cymdeithasol yn dal i fod ar waith, bydd yn rhaid i ni addasu i drefniadau gweithio newydd ar gyfer gweini prydau bwyd.

4.2.1 **Brecwast** - byddai'n rhaid i aelod o staff ei roi ar blât fel nad yw cwsmeriaid yn rhannu'r offer gweini.

4.2.2 **Cinio Canol Dydd** – os ydym am gynnig y rhain, gallent fod ar gael o'r Ystafell De yn unig os rhoddir mesurau addas ar waith fel sgriniau Persbecs.

4.2.3 **Cinio Gyda'r Nos** – byddai'n rhaid iddo fod yn unol â'r system bresennol o wasanaeth bwrdd teulu gan ddefnyddio'r Ystafell Fwyta, Ystafell Oakeley a'r Llyfrgell o bosibl i ganiatáu digon o le ar gyfer ymbellhau cymdeithasol.

4.2.4 **Gwasanaeth Mewn Ystafell** – byddai'n rhaid i ni ymchwilio i ymarferoldeb cynnig hyn i westeion nad ydynt yn dymuno defnyddio'r ystafell fwyta.

4.3 Rhagwelir mai llety'r byncws fydd â'r galw lleiaf oherwydd ni fydd cwsmeriaid eisiau rhannu ystafelloedd gwely neu gyfleusterau cegin gyda phobl nad ydyn nhw'n eu hadnabod. Byddai'n bosibl gwneud y gwaith ar yr ystafelloedd i ddarparu'r cyfleusterau ensuite ac yna eu dodrefnu yn wahanol i'r gwelyau bync a gynlluniwyd er mwyn galluogi iddynt gael eu marchnata fel llety Gwely a Brecwast ychydig yn rhatach.

## 5. Mentrau Newydd

5.1 Bydd angen i'r Ganolfan fod yn rhagweithiol wrth addasu i fentrau newydd sy'n cynnig mathau newydd o gyrsiau a digwyddiadau. Trafodwyd amlinelliad o'r syniadau mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Bwrdd, maent yn cynnwys datblygu ystod o gyrsiau sy'n mynd i'r afael â materion fel Newid Hinsawdd ac effaith ddynol ar yr amgylchedd.

5.2 Bydd yn cymryd amser staff i ddod o hyd i diwtoriaid addas a sefydlu a marchnata'r cyrsiau / digwyddiadau hyn ac mae'n annhebygol y gellid eu sefydlu hyd dymor yr hydref 2021 ar y cynharaf.

5.3 Bydd marchnata yn allweddol i lwyddiant ailsefydlu'r Ganolfan yn y farchnad. Byddai hyn yn cael ei gynorthwyo gan y prosiect ailddatblygu pe bai'n bwrw ymlaen.

## 6. Ail agor

6.1 Er mwyn i'r Ganolfan allu ailagor a dilyn y canllawiau Pellter Cymdeithasol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, byddai'n rhaid i ni brynu a gosod sawl sgrin Persbecs, yn enwedig yn y dderbynfa.

6.2 Byddai'n rhaid i ni fabwysiadu system wahanol ar gyfer prydau gyda'r nos, fel rydyn ni'n ei wneud amser cinio ganol dydd er mwyn sicrhau nad yw staff sy'n gweini yn dod i gysylltiad agos â chwsmeriaid.

6.3 Cyn ailagor bydd angen sterileiddio neu fflysio'r system ddŵr i sicrhau nad oes unrhyw risg o Glefyd y Llyngfilwyr (Legionnaires) gan fod y dŵr yn y system wedi bod yn sefyll ers cryn amser.

6.4 Mae'r Sefydliad Safonau Prydain wedi cyhoeddi canllaw cynhwysfawr ar Weithio'n Ddiogel, y byddai'n rhaid i ni ei fabwysiadu er diogelwch a lles ein staff a'n hymwelwyr. Mae'n cynnwys argymhellion fel glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd (e.e. dolenni drysau, switshis golau, cownteri, pwyntiau talu ac adnoddau a rennir).

6.5 Byddai'n rhaid i ni edrych ar batrymau gwaith staff i sicrhau bod gennym ddigon o staff ar ddyletswydd pan fydd eu hangen. Ar hyn o bryd dim ond un aelod o staff sy'n gweithio gyda'r nos oherwydd fel ein gweithgareddau arferol, mae'r mwyafrif o westeion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cwrs.

## ATODIAD 2

**EITEM RHIF 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch |
| **DYDDIAD** | 1af Gorffennaf 2020 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD AR AMCAN GOST YR OPSIYNAU SY'N BERTHNASOL I BLAS TAN Y BWLCH** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd Rheoli i gynorthwyo i lunio argymhelliad i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch. |

**1. <u>Cefndir</u>**

1.1 O ganlyniad i bandemig COFID-19, mae'r ganolfan astudio wedi bod ar gau o ganol mis Mawrth 2020. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael eu rhoi ar y cynllun seibiant.

1.2 Mae'r Awdurdod yn wynebu colled sylweddol o incwm masnachol o ganlyniad i'r pandemig. Rydym yn aros am gadarnhad swyddogol gan Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn y cyd-destun hwn, ond rydym yn rhagweld y gallai cymorth ariannol o'r fath fod ar ffurf natur dros dro.

1.3 Y doethineb canfyddedig o ran economi'r Deyrnas Unedig yw ein bod yn mynd i mewn i ddirwasgiad difrifol gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar hyn o bryd yn rhagweld cwymp o 11.5% mewn incwm cenedlaethol (CDG) ar gyfer 2020, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch Brexit “heb fargen” a'r posibilrwydd o ail gyfnod llwyrgloi.

1.4 Mae cyfyngiadau teithio rhyngwladol gan gynnwys wynebu cyfnod cwarantîn 14 diwrnod cyfredol ar ôl dychwelyd i'r DU yn awgrymu y bydd llawer mwy o drigolion y DU yn ôl pob tebyg yn treulio eu gwyliau yn y DU.

1.5 Heblaw am fusnes sy'n gysylltiedig ag ysgolion, mae'r ddemograffig gyfredol ar gyfer cwsmeriaid y Ganolfan Astudio yn yr ystod o bobl oedran hŷn a ystyrir fel rhai sy’n fwy agored i niwed yn sgil COFID-19, ac nid oes sicrwydd o frechlyn eto, heb sôn am fod yn rhywbeth sydd ar fin digwydd.

1.6 Yn 2019/20 derbyniodd yr Awdurdod gyllid grant Llywodraeth Cymru o £229,000 tuag at uwchraddio’r llety yn y prif adeilad a datblygu llety ar ffurf byncws. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo £48,840 o arian ychwanegol i'r prosiect hwn o gronfeydd wrth gefn:–

£28,500 o'r Gronfa Rheoli Asedau

£20,340 o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

Deallir bod hyblygrwydd o ran defnyddio'r arian grant hwnnw pe bai hynny'n ofynnol.

Darperir y gyllideb refeniw wreiddiol ar gyfer y ganolfan astudio yn 2020/21 (ac eithrio'r dyfarniad cyflog blynyddol sydd eto i'w gytuno) yn Atodiad 1.

1.7 Mae bwriad i ddisodli'r system archebu cyrsiau gyfredol. Y gyllideb ar gyfer hyn yw £28,193.

1.8 Yn 2019/20 fe wnaeth y ganolfan astudio golled yn erbyn y gyllideb o £160,370. Mae'r canlyniadau gan gynnwys y 5 mlynedd flaenorol fel y nodir isod, ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw gyfraniad at wasanaethau cymorth corfforaethol a rhent tybiannol ar gyfer yr adeilad:

**Tabl 1 - Cost Net Plas Tan a Bwlch i'r Awdurdod.**

| **Blwyddyn** | **Cyllideb Arian Parod Diwygiedig (refeniw)** | **Alldro (refeniw)** | **Cost i'r Awdurdod** |
|---|---|---|---|
| | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| 2019/20 | 85,685 | (160,370) | 246,055 |
| 2018/19 | 104,557 | (42,852) | 147,409 |
| 2017/18 | 158,984 | (81,005) | 239,989 |
| 2016/17 | 308,765 | (9,078) | 317,843 |
| 2015/16 | 256,576 | 32,905 | 223,671 |
| 2014/15 | 348,790 | (28,660) | 377,450 |

Mae'r gostyngiad sylweddol yn y gyllideb arian parod ddiwygiedig yn 2017/18 yn bennaf oherwydd cynnydd o £141,500 yn y targed ar gyfer incwm ffioedd cyrsiau.

## 2. <u>Amcangyfrif o gost yr opsiynau</u>

2.1 Y flwyddyn ariannol gyflawn ddiwethaf yn rhydd o effeithiau COFID-19 yw 2018/19, felly defnyddiwyd gwariant ac incwm gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno fel man cychwyn ar gyfer amcangyfrif senarios ar gyfer y dyfodol.

2.2 Mae'r Pennaeth Busnes wedi amcangyfrif yn gyffredinol, os gall y ganolfan astudio ailagor ym mis Hydref 2020:

- Bydd y 6 mis hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn rhedeg ar drosiant o 25%
- Bydd 2021/22 yn rhedeg ar drosiant o 50%
- Bydd 2022/23 yn rhedeg ar drosiant o 100%.

2.3 Gan gymhwyso'r rhagdybiaethau uchod i ffigurau gwirioneddol 2018/19 ac addasu ar gyfer y gwyliau treth (£34k) yn 2020/21 ac arbedion trwy'r cynllun seibiant (£122k), rydym yn dod at y diffygion amcangyfrifedig canlynol.

**<u>Tabl 2 - Amcangyfrif o'r Diffyg Net yn seiliedig ar ffigurau 2018/19</u>**

| Cyfnod | Diffyg Net | Diffyg Net y Flwyddyn Ariannol |
|---|---:|---:|
| 1/4/2020 – 30/9/2020 | 161,155 | |
| 1/10/2020 – 31/3/2021 | 215,636 | 376,791 |
| 1/4/2021 – 31/3/2022 | 383,254 | 383,254 |
| 1/4/2022 – 31/3/2023 | 157,699 | 157,699 |

2.4 Mae'r Pennaeth Busnes wedi adolygu'r ffrydiau incwm posibl fel y nodwyd yn ei adroddiad “Diweddariad Busnes yn y Dyfodol” i gyfarfod y Bwrdd hwn. Mae defnyddio'r wybodaeth hon i adolygu sail 2018/19 yn rhoi'r ffigurau yn nhabl 3 isod i ni. Er eu bod yn cydnabod yr ansicrwydd a wynebir a thrwy hynny anhawster i gyflawni rhagolygon credadwy, mae hyn yn darparu'r hyn y gellid ei ystyried yn senario ‘o dan yr amgylchiadau gorau’ ar gyfer y cyfnodau o dan sylw.

**<u>Tabl 3 - Amcangyfrif o'r Diffyg Net yn seiliedig ar 2018/19 a rhagolygon incwm diwygiedig</u>**

| Cyfnod | Diffyg Net y Flwyddyn Ariannol |
|---|---:|
| 1/4/2020 – 31/3/2021 | 312,597 |
| 1/4/2021 – 31/3/2022 | 186,485 |
| 1/4/2022 – 31/3/2023 | 107,699 |

Mae ffigurau’r Pennaeth Busnes yn cynnwys incwm o £50,000 yn 2021/22 a 2022/23 yr un ar gyfer busnes newydd a ddenir ar sail gwell cyfleusterau llety a chyfleuster archebu ar-lein. Mae'r Pennaeth Busnes yn nodi y gallai'r llif incwm hwn fod yn werth £100,000 y.f. ar sail 10 ystafell wedi'u harchebu am 100 noson am £100 y noson. Nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys cynnydd mewn costau e.e. arlwyo, yn ymwneud â'r ffigurau incwm uwch.

2.5 Felly amcangyfrifir bod y diffyg net ar gyfer y ganolfan astudio dros y cyfnod dwy flynedd 1/4/2020 - 3/31/2022 rhwng £499,082 - £760,045, gyda'r blynyddoedd canlynol hefyd yn edrych ar ddiffygion sylweddol yn dibynnu ar y gallu i ddenu busnes newydd.

## 3. Costau Cau Plas Tan y Bwlch

3.1 Mae'r Ganolfan Astudio yn cyflogi 29+ o staff yn dibynnu ar faint sy'n ofynnol ar sail “achlysurol”. Amcangyfrifir mai cost hawliadau am daliadau diswyddo a chostau cyflogwyr rhyddhau pensiynau yn gynnar ydi:

| | |
|---|---|
| Diswyddiadau | £206,497 |
| Rhyddhau pensiynau | £178,684 |
| | £385,181 |

Mae'r costau diswyddo yn seiliedig ar gyfrifiadau ar 31/12/2020 a dyfarniad cyflog heb ei gytuno , hyd yn hyn, o 2.75%.

3.2 Byddai'r costau ychwanegol amcangyfrifedig sy'n ymwneud â “rhoi'r adeilad o'r neilltu” tra'n aros iddo werthu yn cynnwys cost unwaith ac am byth o’i fordio sydd tua £6,000. Byddai'r cynllun trydan dŵr yn parhau i gynhyrchu incwm, dyweder, £28,000 y.f. i'w gyfrannu at gostau cynnal a chadw.

## 4. Argymhelliad

Ystyried yr adroddiad ar y cyd â'r adroddiad gan y Pennaeth Busnes ar incwm yn y dyfodol, a ffurfio argymhelliad ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch i'r Awd